Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafcass Cymru

# Ymgysylltu ag Oedolion sy’n Ddioddefwyr-Oroeswyr Cam-drin Domestig

Mai 2025

llyw.cymru



# Cynnwys


1 **Ymgysylltu ag Oedolion sy'n Ddioddefwyr-Oroeswyr Cam-drin Domestig**

1 **Beth yw Ymarfer sy'n Ystyriol o Gam-drin Domestig?**

2 **Diogelwch**

2 **Effaith Cam-drin ar y Gallu i Fagu Plant**

3 **Asesiadau yn seiliedig ar Gryfderau**

4 **Arferion Gorau**


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52047, ISBN digidol 978-1-83715-718-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Ymgysylltu ag Oedolion sy’n Ddioddefwyr-Oroeswyr Cam-drin Domestig

- Bydd gan oroeswyr cam-drin amrywiaeth o nodweddion a byddant wedi datblygu eu strategaethau diogelwch ac ymdopi eu hunain.
- Dylem ddefnyddio dull gweithredu gwrthrychol sy’n ystyriol o drawma a cham-drin domestig wrth ryngweithio â rhieni er mwyn nodi’n gywir pan fydd achos o gam-drin wedi digwydd.
- Mae’n rhaid i ni ddefnyddio dull gweithredu sy’n seiliedig ar gryfderau wrth ymdrin â rhieni sy’n ddioddefwyr-oroeswyr er mwyn tynnu sylw at yr hyn y maent yn ei wneud, sydd o fewn eu rheolaeth, i gefnogi llesiant y plentyn/plant.

# Beth yw Ymarfer sy’n Ystyriol o Gam-drin Domestig?

Mae cynllunio achosion mewn ffordd sy’n ystyriol o gam-drin domestig yn golygu bod yn agored i’r posibilrwydd bod cam-drin yn digwydd ac ystyried yr opsiwn hwn yn eich asesiadau.

Wrth weithio mewn amgylchedd llys, byddwn yn aml yn teimlo pwysau i fod yn wrthrychol ac yn niwtral. Mae gan y termau hyn ystyron gwahanol ond cânt eu defnyddio’n aml mewn ffordd gyfnewidiol o fewn systemau’r llys:

- **Gwrthrychol:** prosesau sy’n deg, yn ddiduedd ac a all arwain at ganfyddiadau nad ydynt yn niwtral.
- **Niwtral:** dim safbwyntiau pendant, mynegiant neu deimladau cryf ar gyfer y naill ochr na’r llall.

Gall proses wrthrychol sy’n deg ac yn ddiduedd o ran dull arwain at ganfyddiadau nad ydynt yn niwtral.

Er enghraifft, dod i’r casgliad bod un rhiant yn amddiffyn y plentyn yn fwy neu’n gwneud ymdrechion cryfach i gefnogi llesiant y plentyn neu fod un rhiant yn defnyddio patrwm o gam-drin a rheoli sy’n niweidio lles y plentyn, neu wedi defnyddio patrwm o’r fath.

Bydd asesiadau ymddygiadol gwrthrychol sy’n defnyddio dull gweithredu sy’n ystyriol o gam-drin domestig yn nodi ac yn datblygu sylfaen dystiolaeth sy’n dangos gallu rhieni i amddiffyn yn ogystal â rhiant sydd wedi creu amgylchedd o niwed, sy’n gadarnhaol i lysoedd sy’n ymrwymedig i sicrhau diogelwch plant.

# Diogelwch

Sicrhewch bob amser nad yw'r person gydag aelodau eraill o'r teulu/ unrhyw un sydd â buddiant breintiedig pan fyddwch yn gofyn cwestiynau am gam-drin domestig, gan gadw mewn cof ddynameg ehangach y teulu, achosion posibl o gyflawni gan bartner newydd, rhwydweithiau cymunedol ehangach ac ati.

Os bydd rhwystrau ieithyddol, defnyddiwch adnoddau priodol megis cyfieithydd ar y pryd proffesiynol. Peidiwch â dibynnu ar aelodau o'r teulu i gyfieithu ar ran dioddefwr-oroeswr gan y gall hyn achosi risg bellach neu atal yr unigolyn rhag rhannu gwybodaeth hanfodol. Gall galluogi pobl i siarad am bynciau heriol neu bethau sy'n peri gofid iddynt yn eu hiaith gyntaf eu helpu i deimlo'n fwy cyfforddus.

Cadarnhewch a oes unrhyw bryderon diogelwch uniongyrchol. Os bydd unrhyw bryderon diogelwch uniongyrchol, sicrhewch eich bod yn dilyn gweithdrefnau diogelu a bod llwybrau ar gyfer cymorth arbenigol pellach neu gymorth brys.

A yw'r amgylchedd lle rydych yn ymgysylltu â'r dioddefwr-oroeswr yn niwtral, yn ddiogel ac yn gyfforddus? A yw'n rhydd o ddulliau goruchwylio ac yn breifat?

A oes unrhyw ffactorau croestoriadol i'w hystyried (er enghraifft cam-drin ar sail anrhydedd, fel y'i gelwir, neu gam-drin a hwylusir gan y gymuned)?

# Effaith Cam-drin ar y Gallu i Fagu Plant

Bydd defnyddio rheolaeth drwy orfodaeth a cham-drin yn cael effaith ar ddewisiadau'r rhiant sy'n ddioddefwr-oroeswr a gallu'r unigolyn i fagu plant. Mae enghreifftiau o'r ffordd y gellir effeithio ar y gallu i fagu plant yn cynnwys:

- Cyflawnwyr yn tanseilio galluoedd magu plant y dioddefwr-oroeswr yn uniongyrchol i'r unigolyn, o flaen y plant neu i asiantaethau/ rhwydweithiau eraill.
- Defnyddio wltimata gyda bygythiad o niwed pellach os na chaiff rhai camau gweithredu (sy'n afresymol neu nad ydynt yn canolbwyntio ar y plentyn) eu cymryd.
- Annog plant i fod yn gyfranogwyr gweithredol mewn gweithgareddau gorfodaethol a rheolaethol neu gamdriniol. Er enghraifft, dylanwadu ar y plant i fonitro'r rhiant arall (Stark, 2007).
- Niweidio canfyddiad y plentyn o'r rhiant sy'n ddioddefwr-oroeswr.
- Atal rhieni sy'n ddioddefwyr-oroeswyr rhag darparu arferion cyson, gan gynnwys amser magu plant a all effeithio ar lefelau ymlyniad a chyfleoedd naturiol i ymgysylltu â'r plentyn.

Gall hyn beri i'r rhiant sy'n ddioddefwr-oroeswr golli hyder yn ei sgiliau magu plant neu mewn trawma emosiynol pellach os caiff yr unigolyn ei atal yn weithredol rhag magu plant yn effeithiol oherwydd bygythiadau, ofn neu niwed.

# Asesiadau yn seiliedig ar Gryfderau

Mae perthnasoedd camdriniol, rheolaethol neu orfodaethol (boed hynny'n barhaus neu ar ôl gwahanu) yn cyfyngu ar allu goroeswr i weithredu; er y bydd mwy o gyfle weithiau i weithredu ar ôl gwahanu, gall fod cyfyngiadau sylweddol hefyd pan fydd anghydfodau yn y llys teulu a phan fydd amodau ariannol eraill yn cael eu gorfodi gan gyflawnwyr neu gan systemau (Kelly, L, Sharp-Jeffs, N., Klein, R. 2014)[1].

Dylid deall penderfyniadau magu plant dioddefwr-oroeswr camdriniaeth yng nghyd-destun y gamdriniaeth; gall penderfyniadau a all ymddangos yn wael fod yn ymatebion rhesymegol a hunanamddiffynnol i'r bygythiadau canfyddedig a gwirioneddol o gam-drin, gyda'r nod o amddiffyn y plentyn.

Mae'n hollbwysig y gwneir pob ymdrech i asesu ymdrechion y rhiant sy'n ddioddefwr-oroeswr i amddiffyn, ni waeth pa mor 'fach' yw'r camau gweithredu hyn. Dylid cydnabod ymdrechion i amddiffyn am eu rôl wrth geisio sicrhau diogelwch plant, a'u llwyddiant i wneud hynny mewn llawer o achosion.

Nid yw hyn yn golygu na allwn fynd i'r afael ag ymddygiadau niweidiol neu esgeulus neu ddewisiadau magu plant y rhiant ond, yn hytrach, dylem geisio eu deall a'u gwerthuso o fewn cyd-destun yr amgylchedd camdriniol/rheolaethol y mae'n byw ynddo. A fyddai'r camau gweithredu hyn wedi bod yn wahanol pe na bai cam-drin yn ffactor?

Mae enghreifftiau o gamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn cynnwys:

| Diogelwch Corfforol ac Emosiynol | Sefydlogrwydd a Magwraeth | Gwella o Drawma |
|---|---|---|
| • Rhoi plant i'r gwely yn gynharach er mwyn eu hatal rhag gweld achosion o gam-drin.<br>• Anfon plant o'r cartref (cymdogion, perthnasau, gweithgareddau ar ôl ysgol, allan i chwarae).<br>• Ymyrryd ar lafar/yn gorfforol er mwyn amddiffyn plant.<br>• Gwneud cais am orchmynion amddiffyn.<br>• Cynnal anghenion sylfaenol plentyn/plant (gan gynnwys anghenion emosiynol, llesiant, cymdeithasol a gofal iechyd cyffredinol). | • Sicrhau bod aelwyd yn parhau i weithredu gystal â phosibl.<br>• Talu biliau neu reoli cyfrifon.<br>• Cynnal anghenion sylfaenol plant h.y. gwisgo, prynu bwyd ac ati. | • Siarad â nhw a'u cysuro ynghylch eu hofnau, pryderon ac ati.<br>• Mynd â nhw i sesiynau cwnsela neu rwydweithiau cymorth therapiwtig eraill (gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol ac ati).<br>• Ceisio cynnal arferion pob dydd/gweithgareddau difyr/ymgysylltu ag eraill.<br>• Rhoi cyfleoedd i'r plentyn/plant ymgysylltu ag aelodau diogel o'r teulu estynedig ar ddwy ochr y teulu. |

1 SWA-Finding-Costs-of-Freedom-Report.pdf (londonmet.ac.uk)

## Cwestiynau Ymarfer

- Pa strategaethau ddefnyddiwyd gan y rhiant sy'n amddiffyn yn y gorffennol i reoli risgiau diogelwch personol a risgiau diogelwch i'r plentyn/plant?
- Pa strategaethau ddefnyddiwyd gan y rhiant sy'n amddiffyn i helpu'r plentyn/plant i wella o niwed/gwneud iawn am gamdriniaeth?
- Beth mae'r rhiant sy'n amddiffyn yn ei wneud i liniaru risg a niwed personol a risg a niwed i'r plant yn y dyfodol, neu sut y mae'n bwriadu gwneud hyn?

## Arferion Gorau

| | |
|---|---|
| ✓ | • Dylai goroeswyr gael gwybod eu bod yn gymwys i ddefnyddio mesurau arbennig[2] er mwyn cymryd rhan mewn achosion llys â llai o risg o niwed.<br>• Pan wneir datgeliadau, dylid eu cydnabod mewn ffordd empathetig a dangos eich bod yn deall y cryfder sydd ei angen i ddatgelu achos o gam-drin.<br>• Mae cyfeirio neu atgyfeirio dioddefwyr-oroeswyr (oedolion neu blant) at gymorth arbenigol yn arfer a argymhellir pan nodir achos o gam-drin. |
| ✗ | • Nid yw rhaglen Gweithio Gyda'n Gilydd er mwyn Plant yn addas mewn achosion lle mae cam-drin domestig yn ffactor.<br>• Caiff dioddefwyr-oroeswyr cam-drin domestig eu heithrio rhag gorfod mynd i gyfarfodydd asesu a gwybodaeth am gyfryngu.<br>• Nodir hyn yn Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010, Rheol 3.8.<br>• Bydd angen tystiolaeth ar y llys i ddangos bod yr unigolyn wedi dioddef cam-drin domestig neu'n wynebu risg o gam-drin domestig; ceir manylion llawn am ba dystiolaeth a dderbynnir ar wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder[3].<br>• Lle profwyd y bu cam-drin domestig neu gam-drin rhywiol, ni ddylai fod yn ofynnol i'r dioddefwr-oroeswr gyfrannu at gostau'r ganolfan cyswllt dan oruchwyliaeth (cyfraith achosion Griffiths v Griffiths Uchel Lys Cymru a Lloegr 113, 2022). |

2 www.gov.uk/government/publications/domestic-abuse-bill-2020-factsheets/special-measures-in-family-proceedings
3 PRACTICE DIRECTION 3A – FAMILY MEDIATION INFORMATION AND ASSESSMENT MEETINGS (MIAMS) – Justice UK